

Yn ôl Early *et al.* (2017) mae ansawdd yn y blynyddoedd cynnar yn cael i ddisgrifio fel nodweddion strwythurol a phroses yr amgylchedd, sydd yn hyrwyddo dysgu a datblygiad. Mae ansawdd strwythurol yn cyfeirio at ffactorau distal mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar fel cymarebau staff, maint grŵp, addysg athrawon a hyfforddiant, cyflogi a budd-daliadau staff (Early *et al.*, 2017). Aeth Early *et al.* (2017) ymlaen i ddweud mai ffactorau distal yn gefnogaeth angenrheidiol i hyrwyddo proses o ansawdd. Cytuna Dahlberg, Moss a Pence (2013) bod staff sydd wedi cael hyfforddiant effeithlon, maent yn sicrhau parhad, sefydlogrwydd a gwelliant mewn ansawdd sy'n briodol i'r cwricwlwm addysg sydd mewn lle. I dangos ansawdd da, mae angen i staff darparu addysg mewn lleoliad diogel, sydd ag adnoddau addas er mwyn i'r plant datblygu (Dahlberg, Moss a Pence, 2013). Noda Brand (dim dyddiad) bod ansawdd yn cael i fesur mewn ffurfiau gwahanol, fel arsylwadau cyfoedion, goruchwyliaeth a gwerthusiadau, a defnyddio adborth o wasanaethau allanol. Trwy ddefnyddio ffurfiau gwahanol o fesur, mae'n darparu'r ymarferwyr gyda dull holistaidd yn yr arfer darparwyd (Brand, dim dyddiad). Mae cynhwysiad yn arfer blynyddoedd cynnar yn bwysig, er mwyn cwrdd ag anghenion pob plentyn, ac i ddathlu gwahaniaethau a thebygrwydd o fewn y lleoliad (Brand, dim dyddiad).

Hawlia Robb (dim dyddiad) y pwysigrwydd o ansawdd da o arfer yn y blynyddoedd cynnar, gan ddylai pob plentyn gael yr hawl i fynediad o ddarpariaeth o safon dda yn ystod blynyddoedd cyntaf eu plentyndod. Yn dilyn y Confensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau Plentyn (CCUHP), mae gan bob plentyn yr hawl i addysg, (erthygl 28) a hawl i ymlacio a chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau (erthygl 31) (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad) Mae ansawdd effeithiol yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn cael dylanwad ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plant, ac yn prif factor o well canlyniadau plant a theuluoedd (Robb, dim dyddiad). Yn dilyn hyn, dangosir Llywodraeth Cymru (2013) bod lleoliadau blynyddoedd cynnar yn cael effaith positif ar ganlyniadau datblygiad plant, sef datblygiad iaith, cyfathrebu, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol.

Yng Nghymru, mae'n hanfodol i leoliadau addysg dilyn y National Minimum Standards (NMS). Dywed Llywodraeth Cymru (2016) bod y NMS yn set o ofynion sydd angen i leoliadau dilyn fel rhan o ddarpariaeth rhan 2 o'r 'Children and Families (Wales) Measure 2010.' Dywed Callanan *et al.* (2017) bod arweinyddiaeth effeithiol yn rhan hanfodol o ddarparu gofal o ansawdd dda. Aeth Callanan *et al.* (2017) ymlaen i ddweud bod arweinyddion ac ymarferwyr yn adlewyrchu ar wybodaeth dda am y proffesiwn, ymgysylltu effeithiol, perthnasoedd â rhieni, a staff yn cael blaenoriaeth o fewn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Mae ansawdd dda o fewn y blynyddoedd cynnar hefyd yn cysylltu â' prosiect EPPE sef y 'Effective Provision of Pre-School Education' (Sylva *et al.*, 2004). Mae'r prosiect EPPE astudiaeth a wnaeth darganfod fod ansawdd lleoliad yn cael effaith hir dymor ar ganlyniadau addysgol (Sylva *et al.*, 2004). Aeth Sylva *et al.* (2004) ymlaen i ddweud bod y prosiect EPPE hefyd yn cael gwellhad ar ddarpariaeth ar gyfathrebu cymdeithasol. Awgryma'r prosiect EPPE bod ansawdd o ddarpariaeth yn ehangu

sgiliau iaith, mathemateg a darllen sydd yn paratoi plant am ei dyfodol mewn addysg (Sylva *et al.*, 2004).

Sustained Shared Thinking and Emotional Wellbeing Scales (SSTEWS)

Yn ôl Yew Chung Education Foundation (2022) mae'r raddfa SSTEWS yn ystyried arfer sy'n cefnogi plant rhwng 2 a 5 oed, i ddatblygu sgiliau meddwl ar y cyd parhaus a lles emosiynol. Mae hyn hefyd yn golygu meithrin perthnasoedd cryf a chyfathrebu effeithiol (Yew Chung Education Foundation, 2022). Mae meddwl ar y cyd parhaus yn bennod o 2 neu fwy unigolyn sydd yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd ddeallusol i ddatrys problemau, gwerthuso gweithgareddau ac ymestyn naratif (Early Education, 2022). Aeth Early Education (2022) ymlaen i ddweud bod hi'n ffordd o gymryd rhan mewn sgwrs gyda phlant, a chadw sgwrs i lifo trwy gwestiynau penagored. Mae'r term 'meddwl ar y cyd parhaus' yn dod o 'Research Effective Pedagogy in the Early Years' (REPEY). Dywed Siraj-Blatchford *et al.* (2002) bod y prosiect REPEY angen i ymarferwyr asesu perfformiad y plant, trwy roi profiadau cyfiawnadwy, modelu iaith addas, a hefyd gwobrwyo ac ysgogi plant.

Hawlia Nursery Story (2021) mae meddwl ar y cyd parhaus yn fudd i blant yn y blynyddoedd cynnar, oherwydd maent yn rhoi fwy o ddealltwriaeth i blant. Aeth Nursery Story (2021) ymlaen i ddweud bod trafodaethau manwl yn debygol o roi fwy o ddealltwriaeth i blant am yr amgylchedd o'i hamgylchedd. Mae plant yn gallu datblygu fwy o ddealltwriaeth trwy ddefnyddio deunyddiau ac adnoddau, er mwyn creu syniadau (Nursery Story, 2021). Ymhellach, mae hyn hefyd yn gallu datblygu elfennau corfforol plentyn fel maent yn dysgu beth maen nhw'n gallu gwneud a ddim yn gallu gwneud, sydd hefyd yn datblygu datblygiad emosiynol a cymdeithasol (Nursery Story, 2021). Mae rhyngweithio hefyd yn fudd o feddwl ar y cyd parhaus. Dywed Learning Journals (dim dyddiad) bod rhyngweithiad gyda phlant yn helpu cynnal sylw a diddordebau plentyn trwy ymgysylltu â nhw mewn sgwrs fel y gall ddysgu pynciau gwahanol. Mae rhyngweithio hefyd yn help plant i feddwl am syniadau yn annibynnol a sut i ddatrys problemau (Learning Journals, dim dyddiad). Dywed Siraj-Blatchford *et al.* (2002) o fewn y prosiect REPEY, bod lleoliadau sydd yn hybu meddwl ar y cyd parhaus yn lleoliadau sydd yn fwy effeithiol. Dangosir o leoliadau effeithiol sydd yn defnyddio meddwl ar y cyd parhaus, mae ymarferwyr sydd gyda chymwysterau uwch yn rhai sydd â rhyngweithiad mwyaf effeithiol gyda'r plant, and yn defnyddio meddwl ar y cyd yn barhaus yn fwy (Siraj-Blatchford *et al.* 2002).

Dywed Siraj-Blatchford, Kigston a Melhuish (2015) gaeth y raddfa SSTEWS i gynllunio i'w ddefnyddio ar gyfer ymchwil, hunanwerthusiadau a gwelliant, archwilio a rheoleiddio. Aeth Siraj-Blatchford, Kigston a Melhuish (2015) ymlaen i ddweud bod defnyddio'r raddfa yma ar ochr graddfeydd erial fel ECERS a ITES, yn rhoi syniad i ddefnyddwyr o sut olwg sydd ar addysg a gofal plentynod cynnar o ansawdd uchel, sydd hefyd yn ystyried ansawdd uchel o arfer ac addysgeg. Ymhellach, dywed Howard *et al.* (2018) bod y raddfa SSTEWS yn cydnabod y pwysigrwydd o ymarfer sy'n ganolog i'r plant ac yn ddatblygiad addas sy'n briodol, sy'n dangos dilyniant mewn dysgu er mwyn cefnogi plant. Mae canlyniadau uwch o'r raddfa yn cael i roi pryd mae

ymarferwyr yn adnabod pob unigolyn yn dda, gan gynnwys ei diddordeb, credoau a chyflawniadau (Howard *et al.*, 2018). Yn ychwanegol i hyn, mae'r canlyniadau uwch yn cael i roi i leoliad sydd yn cefnogi chwilfrydedd plant, cwestiynau, herio gweithgareddau a hyrwyddo cymryd risg (Howard *et al.*, 2019). Noda Howard *et al.* (2018) bod y raddfa STEW yn digwydd pan fod rhyngweithiad yn cefnogi ac yn ymestyn meddwl plentyn neu blant ac yn cynnwys cefnogaeth i gyfathrebu, iaith, meddwl a dysgu. Mae'r mathau o ryngweithiad yna, yn rhan allweddol mewn addysg plant a datblygiad er mwyn i'w ehangu (Howard *et al.*, 2018). Mae hyn yn cael i gefnogi gan y National Minimum Standards (NMS) (Llywodraeth Cymru, 2016). O fewn safon 8 y NMS, mae Llywodraeth Cymru (2016) yn awgrymu i leoliadau cael polisïau mewn lle a rhoi gofal sydd yn hybu perthnasoedd, annibyniaeth a hyder i blant mewn awyrgylch magwraeth.

Yn debyg i raddfa ECERS, mae graddfa SSTEW hefyd yn hyrwyddo addysgeg ac arfer sydd yn daprau profiadau a chyfleoedd i roi dylanwad ar ganlyniadau plant (Birth to Seven Metters, dim dyddiad). Noda Birth to Seven Matters (dim dyddiad) bod cyfleoedd a phrofiadau yn rhoi cyngor ac yn ehangu dysgu a datblygiad plentyn. Eto, yn debyg i ECERS mae SSTEW yn asesu dros 5 ardal wahanol (Melhuish a Gardiner, 2021). Mae graddfa SSTEW yn edrych ar adeiladu ymdaerith a hyder, cefnogi ac ymestyn iaith a chyfathrebu, cefnogi lles emosiynol, cefnogi dysgu a meddwl ar y cyd parhaus ac asesu dysgu ac iaith (Melhuish a Gardiner, 2021). Dywed Melhuish a Gardiner (2021) mae hyn yn helpu arolygwyr i ffocysu ar ansawdd o ryngweithio rhwng ymarferwyr a phlant. Dywed Siraj-Blatchford (2015) bod y graddfa STEW yn cael i wneud o fewn 1 sesiwn, fel arfer am 3 i 4 awr, a dim ond yn arsylwi 1 grŵp o blant ar y tro. Awgryma Siraj-Blatchford (2015) bod arsylwad SSTEW yn cael i wneud ar ochr graddfa ECERS.

Early Childhood Environment Ratings Scales (ECERS)

Dywed Early *et al.* (2017) bod ECERS yw'r un o'r offer arsylwi sydd yn cael i ddefnyddio'r mwyaf yn ddosbarthiadau blynyddoedd cynnar. Mae graddfa ECERS yn mesur pob ardal o ansawdd fel ardaloedd corfforol, grwpio, deunyddiau, cyfarwyddiadau ac iechyd a diogelwch (Early *et al.*, 2017). Ymhellach, dywed Sylva, Siraj-Blatchford a Taggart (2003) bod ECERS yn asesu darpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd, rhifedd a meddwl gwyddonol datblygol plant, ac yn debyg i raddfa SSTEW asesu rhyngweithiad gydag eraill yn cynnwys oedolion (Clifford *et al.*, 2021). Mae hyn yn cysylltu â theori Vygotsky, wrth iddo amlygu pwysigrwydd o ryngweithio fel calon dysgu a datblygiad y plant (Clifford *et al.*, 2021). Aeth Clifford *et al.* (2021) ymlaen i ddweud bod hi'n hefyd yn cysylltu â 'zone of proximal development' Vygotsky, gan fod rhaid i oedolion deall lle mae'r plentyn yn ddatblygiadol. Cytuna hyn gan Siraj-Blatchford *et al.* (2015), gan fod rhaid i ymarferwyr cysylltu gyda phlant yn llwyddiannus, er mwyn i'r ymarferwyr cael dealltwriaeth glir am eu datblygiad presennol, chyflwyniadau, ymddygiad a'i ymateb i ddysgu.

Mae'r raddfa ECERS yn cynnwys 35 o eitemau sydd wedi'u trefnu mewn i 6 israddfeydd sef; gofod a dodrefn, arferion gofal personol, iaith a llythrennedd,

gweithgareddau dysgu, rhyngweithio a strwythur rhaglen (Environment Rating Scale, dim dyddiad). Yn ôl prosiect REPEY (Siraj-Blatchford, I. *et al.*, 2002) mae'r eitemau sydd yn cael i arsylwi yn asesu addysgeg ar gwricwlwm yn y lleoliad, yn cynnwys ardaloedd fathemateg, gwyddoniaeth, llythrennedd a gwahaniaethu. Dywed Siraj-Blatchford, I., *et al.* (2002) mae'r raddfa yn cael i ddefnyddio i nodi ystod o arferion a darpariaethau yr ystyrid eu bod yn annigonol sef level 1 y raddfa ragorol sef lefel 7 y raddfa. O fewn yr arsylwad ECERS, mae'r arolygwyr yn edrych os mae'r lleoliad yn cwrdd â'r 3 angen sylfaenol pob plentyn, i sicrhau eu bod yn darparu ansawdd o fywyd, gofal ac addysg i sgorio cyfradd uchel o'r raddfa ECERS (isbe.net, dim dyddiad). Noda isbe.net (dim dyddiad) y prif nodweddion yw amddiffyn ei iechyd a diogelwch, cynnig profiadau ar gyfer symbyliad a dysgu o brofiad ac adeiladu perthnasau gyda phlant, rheini a'r gymuned.

Dywed isbe.net (dim dyddiad) i fesur ansawdd gan ddefnyddio graddfa ECERS, mae arolygwyr yn edrych ar gymarebau staff er mwyn sicrhau ansawdd da i blant. Yn dilyn y NMS, mae safon 15 yn amlygu pwysigrwydd o gael cymarebau yn lleoliad blynyddoedd cynnar (Llywodraeth Cymru, 2016). Yn ôl Llywodraeth Cymru (2016) mae cymarebau staff yn fudd i blant oherwydd mae cymarebau yn cydymffurfio arfer gorau posibl. Yn ôl OECD (dim dyddiad) mae canlyniadau yn dangos bod plant yn perfformio'n gwell mewn asesiadau gwybyddol ac ieithyddol pan mae cymarebau staff i blant yn uwch. O fewn cymarebau uwch o blant i staff, dangosir bob plant yn dod yn fwy cydweithredol mewn gweithgareddau a rhyngweithiadau (OECD, dim dyddiad).

Rhestr Cyfeirnod

Birth to Seven Matters (dim dyddiad) Professional development, consultancy and research for those working in early childhood education and care. Ar gael o: <https://birthtosevenmatters.co.uk/about-us/> (Darllenwyd: 2^{ail} o Ebrill 2023).

Brand, F. (dim dyddiad) *Quality practice in early years*. Ar gael o: <https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/quality-practice-in-early-years> (Darllenwyd: 29^{fed} o Fawrth 2023).

Callanan, M. *et al.* (2017) *Good Practice in Early Education*. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/586242/SEED_Good_Practice_in_Early_Education_-_RR553.pdf (Darllenwyd: 2^{ail} o Ebrill 2023).

Clifford, R.M. *et al.* (2021) *A Guide to Analyzing and Interpreting ECERES-3 Data*. Teachers College Press. (Darllenwyd: 1^{af} o Ebrill 2023).

Comisynydd Plant Cymru (dim dyddiad) *CCUHP – Halwiau Plant*. Ar gael o: <https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp-hawliau-planthttpswww-youtube-comwatchvvs1usdrn-voindex4listplgsiznczbjkhq3lfdktsbnlhtbzu5yrc/> (Darllenwyd: 1^{af} o Ebrill 2023).

Dahlberg, G., Moss, P. a Pence, A. (2013) *Beyond quality in early childhood education and care: Languages of evaluation*. Routledge. (Darllenwyd: 28^{fed} o Fawrth 2023).

Early Education (2022) *Sustained shared thinking (SST)*. Ar gael o: <https://early-education.org.uk/sustained-shared-thinking-sst/> (Darllenwyd: 31^{ain} o Fawrth 2023).

Early, D.M. et al. (2017) 'Factor structure and validity of the Early Childhood Environment Rating Scale – Third Edition (ECERS-3)', *Early Childhood Research Quarterly*, 44, pp.242-256. (Darllenwyd: 28^{fed} o Fawrth 2023).

Environment Rating Scale (dim dyddiad) *Early Childhood Environment Rating SCALES, Third Edition*. Ar gael o: <https://ers.fpg.unc.edu/scales-early-childhood-environment-rating-scale-third-edition> (Darllenwyd: 1^{af} o Ebrill 2023).

Howard, S.J. et al. (2018) 'Measuring interactional quality in pre-school settings: introduction and validation of the Sustained Shared Thinking and Emotional Wellbeing (SSTEWS) scale', *Early Child Development and Care*, 190(7), pp.1017-1030. DOI: 10.1080/03004430.2018.1511549 (Darllenwyd: 31^{ain} o Fawrth 2023).

Isbe.net (dim dyddiad) *Introduction to the Early Childhood Environment Rating Scale (ECERS)*. Ar gael o: https://www.isbe.net/Documents/ecers_presentation.pdf (Darllenwyd: 1^{af} o Ebrill 2023).

Learning Journals (dim dyddiad) *What does sustained shared thinking mean in EYFS?* Ar gael o: <https://learningjournals.co.uk/what-does-sustained-shared-thinking-mean-in-eyfs/> (Darllenwyd: 2^{ail} o Ebrill 2023).

Llywodraeth Cymru (2013) *Building a Brighter Future: Early Years and Childcare Plan*. Ar gael o: <https://dera.ioe.ac.uk/18045/1/130716-building-brighter-future-en.pdf> (Darllenwyd: 29^{fed} o Fawrth 2023).

Llywodraeth Cymru (2019) *National Minimum Standards for Regulated Childcare for children up to the age of 12 years*. Ar gael o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/national-minimum-standards-for-regulated-childcare.pdf> (Darllenwyd: 31^{ain} o Fawrth 2023).

Melhuish, E. a Gardiner, J. (2021) *Study of Early Education and Development (SEED): Developing alternative quality scales for Early Childhood Education and Care (ECEC) using exploratory analysis*. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1029981/SEED_Quality_Analyses_Research_Brief.pdf (Darllenwyd: 2^{ail} o Ebrill 2023).

Nursery Story (2021) *Introducing Sustained Shared Thinking in the Early Years*. Ar gael o: <https://nurserystory.co.uk/resource-centre/introducing-sustained-shared-thinking-in-the-early-years/> (Darllenwyd: 2^{ail} o Ebrill 2023).

OECD (dim dyddiad) *Encouraging Quality in Early Childhood Education and Care (ECEC)*. Ar gael:

<https://www.oecd.org/education/school/49322250.pdf#:~:text=Larger%20staff-child%20ratios%20are%20associated%20with%20better%20working,%28Litjens%20and%20Taguma%2C%202010%3B%20Rao%20et%20al.%2C%202003%29>.

(Darllenwyd: 2^{ail} o Ebrill 2023).

Robb, S. (dim dyddiad) *Delivering Quality Provision in the Early Years*. Ar gael <https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/delivering-quality-provision-in-the-early-years#:~:text=The%20wealth%20of%20existing%20evidence%2C%20published%20in%20the,start%20to%20play%20and%20learning%20that%20they%20need>.

(Darllenwyd: 29^{fed} o Fawrth 2023).

Siraj-Blatchford, I. et al. (2015) *Assessing Quality in Early Childhood Education and Care: Sustained Shared thinking and Emotional Well-being (SSTEWS) Scale for 2-5 year olds Provisions*. ProQuest Ebook Central. Ar gael o: <https://ebookcentral.proquest.com/lib/trinity/detail.action?docID=3563913>

(Darllenwyd: 2^{ail} o Ebrill 2023).

Siraj-Blatchford, I., et al. (2002) 'Researching Effective Pedagogy in the Early Years', *Department for Education and Skills, Research Report, 356*. <https://dera.ioe.ac.uk/4650/1/RR356.pdf> (Darllenwyd: 31^{ain} o Fawrth 2023).

Siraj-Blatchford, I., Kingston, D. a Melhuish, E. (2015) *Assessing quality early childhood education and care: sustained shared thinking and emotional well-being (SSTEWS) scale for 2-5 year olds provision*. Trentham Books. (Darllenwyd: 30^{ain} o Fawrth 2023).

Sylva, K, Siraj-Blatchford, I, a Taggart, B. (2003) *Assessing quality in the early years: Early childhood environment rating scale: Extension (ECERS-E), for curricular subscales*. Trentham Books. (Darllenwyd: 1^{af} o Ebrill 2023).

Sylva, K. Et al. (2004) *The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Findings from Pre-school to end of Key Stage 1*. Ar gael o: <https://dera.ioe.ac.uk/18189/2/SSU-SF-2004-01.pdf> (Darllenwyd: 2^{ail} o Ebrill 2023).

Yew Chung Education Foundation (2022) *The Sustained Shared Thing and Emotional Well-being (SSTEWS) Scale*. Ar agel o: <https://www.ycef.com/en/publication/the-sustained-shared-thing-and-emotional-well-being-sstew-scale/> (Darllenwyd: 30^{ain} o Fawrth 2023).

